# Dogfen ir Cyhoedd

Mrs Annwen Morgan
Prif Weithredwr-Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| PWYLLGOR PENODIADAU | APPOINTMENTS COMMITTEE |
| DYDD MERCHER, 17 CHWEFROR 2021<br>am 2.00 o'r gloch | WEDNESDAY, 17 FEBRUARY 2021<br>at 2.00 pm |
| CYFARFOD RHITHIOL (AR HYN O BRYD NID OES MODD I'R CYHOEDD FYNYCHU'R CYFARFOD) | VIRTUAL MEETING (AT PRESENT MEMBERS OF THE PUBLIC ARE UNABLE TO ATTEND) |
| Swyddog Pwyllgor    Mrs. Mairwen Hughes 01248 752516 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**Y Grwp Annibynnol/The Independent Group**

Richard A. Dew, Ieuan Williams **(Cadeirydd/Chair)**

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

T Ll Hughes MBE, Vaughan Hughes, R. Meirion Jones, Llinos M. Huws, Bob Parry OBE FRAgS **(Is-gadeirydd/Vice-Chair)**

**Annibynnwyr Môn/Anglesey Independents**

Kenneth P Hughes, Aled M Jones

**Plaid Lafur Cymru/Wales Labour Party**

Glyn Haynes

**R H A G L E N**

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

2 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 4)

Cyflwyno, i'w cadarnahu, gofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd fel a ganlyn :-

- Cofnodion diwygiedig a gynhaliwyd ar 18 Rhagfyr, 2020.
- Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Ionawr, 2021.

3 **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD** (Tudalennau 5 - 6)

Ystyried mabwysiadu'r canlynol:-

**"O dan Adran 100(A)(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd gallai olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12A, Rhan 1 o Atodlen 12A i'r Ddeddf honno a'r Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."**

4 **APWYNTIO STAFF** (Tudalennau 7 - 48)

**Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol**

Ystyried y ceisiadau ar gyfer y swydd uchod.

Mae copïau o'r Disgrifiad Swydd, y Manylion Personol a ffurflenni cais ynghlwm.

# PWYLLGOR PENODIADAU

## COFNODION DIWYGIEDIG

## Cofnodion y cyfarfod Rhithiol a gynhaliwyd ar 18 Rhagfyr 2020

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Ieuan Williams (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Bob Parry OBE FRAgS (Is-gadeirydd)<br><br>Cynghorwyr R Dew, Glyn Haynes, T Ll Hughes MBE, K P Hughes, Vaughan Hughes, Llinos Medi Huws, A M Jones a R Meirion Jones |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid,<br>Rheolwr Adnoddau Dynol (CW),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Dim |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Dim |

---

**1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

**2 COFNODION**

Cadarnhawydf cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Hydref, 2020 fel cofnod cywir.

**3 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD:-**

**"O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd y tebygolrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A y Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."**

**4 AILSTRWYTHURO'R UWCH DÎM ARWEINYDDIAETH**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Prif Weithredwr mewn perthynas â'r uchod.

Adroddodd y Prif Weithredwr ar y Swydd wag Cyfarwyddwr Rheoleiddio a Lle a'r angen i ystyried opsiynau posibl ar gyfer gallu symud ymlaen i lenwi bwlch o fewn haen uwch dîm arweinyddiaeth a rheoli y Cyngor. Tra bo rôl y Cyfarwyddwr Rheoleiddio a Lle yn alinio â gweledigaeth y Cyngor a'i bod yn cryfhau'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, mae angen cymryd agwedd bragmatig tuag at y sefyllfa recriwtio bresennol yn ystod y cyfnod argyfwng.

Cyflwynwyd dau opsiwn, yn cynnwys yr ystyriaethau ariannol cefnogol, ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor ynghyd ag argymhelliad gan y Prif Weithredwr. Dileu swydd y Cyfarwyddwr Rheoleiddio a Lle a

phenodi Penodi un Pennaeth Gwasanaeth  Rheoleiddio a Datblygu Economaidd a bod swydd newydd, Swyddog Strategaeth Corfforaethol, yn cael ei sefydlu.

Holodd y Cynghorydd A M Jones am y posibilrwydd o ddiwygio'r gofyniad ieithyddol er mwyn caniatau i ymgeiswyr addas allu dysgu'r iaith. Ymatebodd Swyddogion mai dyma'r gofynaid ieithyddol i'r lefel hon o swydd o fewn yr uwch dîm arweinyddiaeth.

Holodd y Cynghorydd R Meirion Jones am natur rôl y Swyddog Strategaeth Corfforaethol o ran datblygiadau yn y dyfodol mewn perthynas â Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru. Ymatebodd y Prif Weithredwr fod y rôl Swyddog Strategaeth Corfforaethol yn rôl ehangach er mwyn cynorthwyo'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ar sawl agwedd wahanol o waith.

Yn dilyn cynnal trafodaeth **PENDERFYNWYD:-**

- **Argymell i'r Pwyllgor Gwaith ac yn dilyn hynny y Cyngor Llawn, y dylid dileu'r swydd Cyfarwyddwr Rheoleiddio a Datblygiad Economaidd o Gyfansoddiad y Cyngor;**
- **Yn dilyn cadarnhad o'r uchod, bod y swydd Pennaeth Rheoleiddio a Datblygiad Economaidd yn cael ei hysbysebu'r allanol;**
- **Bod swydd newydd, Swyddog Strategaeth Corfforaethol, yn cael ei chreu a'i hysbysebu'n allanol.**

Bu'r Cynghorydd A M Jones atal ei bleidlais.

## 5 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD:-**

**"O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd y tebygolrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A y Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."**

## 6 PENODIADAU STAFF

**Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol**

Rhoddodd y Prif Weithredwr adroddiad llafar ar swydd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a'r angen i lenwi'r swydd yn barhaol.

Mynegodd y Cynghorydd A M Jones nad oedd modd iddo ystyried y mater heb dderbyn adroddiad ysgrifenedig.

Cytunodd y Pwyllgor i ohiriad er mwyn derbyn adroddiad ysgrifenedig a gafodd ei baratoi ac a gadarnhawyd yr adroddiad llafar a gyflwynwyd eisoes.

Yn dilyn derbyn yr adroddiad **PENDERFYNWYD yn unfrydol y dylid hysbysebu'r swydd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn allanol yn Ionawr, 2021.**

**CYNGHORYDD IEUAN WILLIAMS**
**CADEIRYDD**

# PWYLLGOR PENODIADAU

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Ionawr 2021

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Ieuan Williams (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Bob Parry OBE FRAgS (Is-gadeirydd)<br><br>Cynghorwyr R Dew, Glyn Haynes, T Ll Hughes MBE, K P Hughes, Vaughan Hughes, Llinos Medi Huws ac A M Jones |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid,<br>Rheolwr Adnoddau Dynol (CW),<br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol/Dirprwy Swyddog Monitro (RJ),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Cynghorydd R.Meirion Jones |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Dim |

---

**1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

**2 COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Rhagfyr, 2020 i'w cadarnhau.

Mynegodd y Cynghorydd A M Jones nad oedd yn ystyried bod y cofnodion yn adlewyrchu'r drafodaeth a gafwyd yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Rhagfyr, 2020.

Mynegodd y Cynghorydd K P Hughes ei ddiolch i'r Cynghorydd A M Jones am godi'r materion hyn.

Cyflwynodd y Cynghorydd Llinos M Hughes gynnig bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Rhagfyr, 2020 yn cael eu diwygio gan y Swyddog Pwyllgor a'u bod yn cael eu cyflwyno i gyfarfod nesaf y Pwyllgor hwn. Eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Bob Parry OBE FRAgS.

**3 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD:-**

**"O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd y tebygolrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A y Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."**

**4 PENODIADAU STAFF**

**Hysbysebu swydd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Prif Weithredwr mewn perthynas â'r swydd uchod.

Cyfeiriodd y Cynghorydd K P Hughes at y disgrifiad swydd, gofynnodd gwestiynau a holodd am gadarnhad ar elfennau'r o'r cynnwys.

Holodd y Cynghorydd A M Jones am y broses ac am gyfnod hysbysebu'r swydd.

**PENDERFYNWYD y dylid hysbysebu'r swydd yn unol â'r disgrifiad swydd a'r manyleb person. Penderfynwyd hefyd y byddai'r hysbysebu yn cael ei wneud drwy wefan benodedig ac y byddai'r swydd yn cael ei hysbysebu am gyfnod o 3 wythnos yn unol â'r cyngor proffesiynol a gyflwynwyd gan y Swyddogion yn y cyfarfod. Nid oedd gofyniad i osod yr hysbyseb mewn unrhyw gyhoeddiadau.**

**CYNGHORYDD IEUAN WILLIAMS**
**CADEIRYDD**

# PRAWF BUDD Y CYHOEDD
# PUBLIC INTEREST TEST

***(Teitl yr Adroddiad / Title of Report)*** ***Staff Appointments***

| | |
|---|---|
| Paragraff(au) Llywodraeth Leol 1972<br>Paragraph(s) 12, 13, 14 Act 1972 | Atodlen 12A Deddf<br>Schedule 12A Local Government |
| Y PRAWF – THE TEST | |
| Mae yna fudd y cyhoedd wrth ddatgelu oherwydd / There is a public interest in disclosure as:-<br><br>Mae hwn yn fater sy'n effeithio ar strwythur rheoli'r Cyngor ac, fel y cyfryw, mae gan y cyhoedd ddiddordeb uniongyrchol mewn cael eu hysbysu am faterion sy'n ymwneud â darparu, cost ac effeithionrwydd gwasanaethau yn cynnwys arbedion sy'n ymwneud â'r rheini.<br><br>This is a matter which affects the Council's management structure and , as such, the public has a direct interest in being informed about matters which relate to the delivery, cost and efficiency of services including savings relating thereto. | Budd y cyhoedd with beidio datgelu yw / The public interest in not disclosing is:-<br><br>Mae yna ddisgwyliad cyfreithiol y bydd materion sy'n ymwneud â gweithwyr unigol y Cyngor yn cael eu trin yn gyfrinachol. Mae gan y Cyngor ddyletswyd o ymddiriedaeth a hyder mewn perthynas â'i ymwneud â'i staff ac mae'r wybodaeth yn yr adroddiad sydd ynghlwm. Mae i'r adroddiad oblygiadau cyflogaeth i'r swyddogion sy'n cael eu heffeithio ac fe all toriad dianghenriad mewn cyfrinached adael y Cyngor, fel cyflogwr, yn agored i gamau cyfreithiol.<br><br>There is a legal expectation that matters relating to individual employees of the Council are to be treated confidentially. The Council has a duty of trust and confidence in relation to its dealings with its staff and the information in the attached report. This report has employment implications for those Officers affected and any unnecessary breach of confidentiality may leave the Council, as employer, open to legal action. |
| **Argymhelliad** - Mae budd y cyhoedd wrth gadw'r eithriad o bwys mwy na/llai na* budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth. [* - dilëwch y geiriau amherthnasol]<br>**Recommendation** - The public interest in maintaining the exemption outweighs/does not outweigh* the public interest in disclosing the information. [* - delete as appropriate] | |

Document is Restricted

This page is intentionally left blank

Document is Restricted

This page is intentionally left blank